**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 12 Mawrth 2003 |
| Amser: | 9.15am tan 12.15pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans (eitem 2) | Cyfarwyddwr yr Is-adran Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitemau 2 a 4) | Pennaeth yr Is-adran Gwarchod yr Amgylchedd |
| Phil Bishop (eitem 2) | Yr Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Denzil Jones (eitemau 2, 5 a 6) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Robert Williams (eitem 4) | Yr Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Andrew Hemmings (eitemau 5 a 6) | Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Cath Mullin (eitemau 5 a 6) | Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

***Yr Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones (eitem 4) | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y rhai a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod Pwyllgor. Yr oedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Tom Middlehurst.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - EPT-04-03(p1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau a ganlyn:

- Dyfrffyrdd - lansiad Strategaeth Dyfrffyrdd Prydain ar 7 Mawrth;
- Gwastraff - lansiad diweddar pum prosiect mewn pum ardal awdurdod lleol ar y cyd â'r sector gwirfoddol, a lansiad yr ymgyrch ymwybyddiaeth gwastraff.

2.2 Canolbwyntiodd cwestiynau'r Aelodau ar:

**Cefn Gwlad**

- Cyfarfod Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) – natur y cyfarfod ag Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch gweithredu cyfyngiadau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

**Diogelu’r Amgylchedd**

- Adolygiad llifogydd - yr angen i gasglu a chadw gwybodaeth leol wrth ailstrwythuro pwyllgorau atal llifogydd yn y dyfodol;
- Adolygu'r cyfyngiadau ar brisiau d•r - natur rôl y Cynulliad yn yr adolygiad hwnnw, sef darparu canllawiau i OFWAT ar ofynion polisi, a chydag OFWAT yn gosod y cyfyngiadau prisiau ar gyfer y cwmnïoedd d•r;
- Strategaeth Ansawdd Aer - cais am wybodaeth ar yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a lywiodd y penderfyniadau a gymerwyd;

- Adroddiad Nantygwyddon - deiseb ddiweddar yn galw am ymchwiliad i safle tirlenwi Trecatti.

**Trafnidiaeth**

- Grant Trafnidiaeth 2004/05 - eglurhad o'r ffigurau (mae'r tabl ar dud. 7 yn nodi'r gyllideb sydd ar gael yn flynyddol ac mae'r tabl yn Atodiad 1 yn nodi cyfanswm y gwariant am hyd y prosiectau penodol - roedd y ddau ar gael i'r awdurdodau lleol), a phrosiectau rheilffyrdd yn y Gogledd;
- Teithio'n rhatach - cefnogaeth i'r adolygiad o'r fformwla ar gyfer ariannu'r gwaith y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud i gyflwyno'r cynllun ac ar gyfer clustnodi cyllidebau;
- Rheilffyrdd - pryder bod y cyllid ar gyfer llinell Glyn Ebwy yn dod o floc grant y Cynulliad ac nid o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, a materion sy'n gysylltiedig ag ailagor gorsaf Llanharan;
- Rhwystrau ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd - yr angen i fynd i'r afael â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chroesfannau rheilffyrdd;
- Dyfrffyrdd - yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau trwy raglen Interreg III yr UE.

2.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y cyfarfod â'r sector gwirfoddol (Atodiad 2) a diweddarodd y rhaglen is-ddeddfwriaeth (Atodiad 3). Nodwyd y **camau gweithredu** a ganlyn yn ystod y cyfnod holi:

- *Swyddogion i roi cyngor ar statws yr astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â phrosiectau atal llifogydd yn Sir Fynwy;*
- *Swyddogion i ymchwilio i'r pryderon a leisiwyd ynghylch rhai landlordiaid preifat yn codi ail dâl am gyflenwadau d•r;*
- *Swyddogion i ddarparu mwy o wybodaeth ar gamau datblygiad Ffordd Fynediad Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.*

**Eitem 3: Adolygiad o waith y pwyllgor** EPT-04-03 (p 2)

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gytuno ar adroddiad sy'n rhoi crynodeb o waith y Pwyllgor rhwng 2000-2003. Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad, yn amodol ar yr ychwanegiadau a ganlyn i'r 'materion i'r dyfodol' yn Atodiad 3:

*Cefn Gwlad*

- Cyllid ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

*Diogelu’r Amgylchedd*

- Y Cynulliad i ystyried gollyngiadau ymbelydrol o safle Nycomed Amersham yng Nghaerdydd, a drwyddedwyd dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, yng ngoleuni'r Ddeiseb a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â methiant y rheoliadau i gwrdd â Chyfarwyddebau penodol yr UE;
- Y DU i ystyried y 'cyfiawnhad' o ran arferion sy'n golygu bod y cyhoedd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd, fel sy'n ofynnol dan Erthygl 6 o Gyfarwyddeb Cyngor yr UE 96/29/ Euratom;
- Mwy o wybodaeth am effaith llygryddion amgylcheddol ar iechyd pobl;
- Mwy o wybodaeth ar faterion sy'n gysylltiedig â defnyddio llosgyddion fel modd o waredu gwastraff ac effaith Cyfarwyddebau'r UE ar waredu teiars;
- Trafodaeth ar safbwyntiau Bjorn Lomborg, awdur 'The Skeptical Environmentalist'.

*Cynllunio*

- Ystyried y materion datblygu cynaliadwy ehangach sy'n ymwneud â datgymalu'r adweithydd niwclear yng ngorsaf bwer Trawsfynydd, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad cynllunio;
- Materion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygu ynni adnewyddadwy.

*Themâu Trawsbynciol*

- Adolygu rolau, cyfrifoldebau a chyfeiriad y cyrff dilynol ar gyfer y dyfodol: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw a'r cyrff treftadaeth cysylltiedig.

3.2 Diolchodd yr aelodau y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth am y modd yr oeddent wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor ers iddo gael ei sefydlu.

**Eitem 4: Mesur Masnachu Gwastraff a Gollyngiadau** - EPT-03-03 (p 4) gohiriwyd o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Rhoddodd y papur wybodaeth i'r Pwyllgor ar agweddau ar y Mesur fel ag y maent yn berthnasol i Gymru. Ers cylchredeg y papur roedd y Mesur wedi cael ei drydydd-darlleniad yn Nhy'r Arglwyddi.

4.2 Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y pwyntiau a ganlyn:

- Diffiniadau - y diffiniad o wastraff trefol fel gwastraff t• neu debyg, a oedd yn cynnwys gwastraff masnachol, a'r awdurdod monitro, sef Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Pwerau - pwerau'r Cynulliad i orfodi'r awdurdodau lleol i lunio a gweithredu Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol (MWMS), a phennu dirwyon am beidio â chydymffurfio;
- Cyllid - y trefniadau ariannol a fyddai'n cefnogi gweithredu darpariaethau'r Mesur, a oedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd;

- Materion trawsffiniol - sut gellid cymhwyso targedau'r Cynulliad ar gyfer ailgylchu a chompostio, a fyddai'n berthnasol i wastraff a gynhyrchir yng Nghymru (gan gynnwys gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn Lloegr, ond nid gwastraff o Loegr a waredwyd mewn safleoedd yng Nghymru);
- Sgôp - effaith darpariaethau'r Mesur ar ba mor ymarferol, yn economaidd, yw'r safleoedd tirlenwi preifat a'r canlyniadau amgylcheddol posibl, a'r angen am fesurau ychwanegol i ddelio â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon.

**Eitem 5: Adroddiad ar y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1998** - EPT-04-03 (p 3)

5.1 Rhoddodd y Gweinidog amlinelliad o'r cynnydd a wnaed o ran gwireddu'r ymrwymiadau a nodir yn Adroddiad 2000 o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1998. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y materion a ganlyn:

- Data - yr angen i fynd i'r afael â data nad oedd ar gael fel y gellid pennu a mesur targedau ystyriol ar gyfer lleihau effaith twf traffig;
- Tagfeydd - pwerau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i gymryd camau i ddelio â thagfeydd, er enghraifft anghyfreithloni parcio, lle y trosglwyddir y cyfrifoldeb am weithredu'r cyfyngiadau parcio o'r Heddlu i'r awdurdodau lleol;
- Llygredd - ffyrdd o leihau effaith gollyngiadau cerbydau ar yr amgylchedd, er enghraifft annog pobl i ddefnyddio tanwydd nwy petrolewm hylifol (LPG);
- Cymhellion - os am annog y cyhoedd i beidio â defnyddio'u ceir preifat, yna mae angen cael gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n integredig ac yn hawdd i'w defnyddio, a mesurau eraill fel llwybrau diogel i'r ysgol.

**Eitem 6: Strategaeth Cerdded a Beicio** -EPT-04-03 (p 4)

6.1 Gofynnodd y Gweinidog am sylwadau ar y Strategaeth Cerdded a Beicio ddrafft. Gofynnodd y Pwyllgor am gael mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Pwyslais - newid o 'hyrwyddo' ac 'annog' i weithredu;
- Rhannu gofod - delio ag anghenion gwahanol y defnyddwyr (cerddwyr, beicwyr, marchogwyr ceffylau, gyrwyr) yn arbennig ar y prif ffyrdd, e.e. trwy flaenoriaethu neu wahanu ffyrdd a gostwng cyfyngiadau cyflymder;
- Cyfleusterau - ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr ddarparu lle i storio beiciau, cawodydd ac ystafelloedd newid i'r gweithwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith, ac i'r gweithredwyr trenau ddarparu cyfleusterau ar eu trenau ac yn y gorsafoedd ar gyfer beicwyr;
- Cyllid – cyllid penodol ar gyfer cynnal y llwybrau beicio a cherdded, e.e. llinell ar wahân yn Asesiadau Gwariant Safonol yr awdurdodau lleol.

6.2 Bydd Fforwm Trafnidiaeth Cymru a'i Is-grwp Cerdded a Beicio yn ystyried dogfen ddiwygiedig cyn ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2003**-EPT-02-03 (mins)

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2003.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.15am ddydd Mercher 26 Mawrth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Mawrth 2003**